# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 20-08 (p3) : 10 Gorffennaf 2008**

## Ymateb drafft y Pwyllgor i ymgynghoriad Network Rail ar y Strategaeth Defnyddio Llwybrau

### Diben

Rhoi sylwadau ar ymateb drafft y Pwyllgor i ymgynghoriad Network Rail ar ei Strategaeth Defnyddio Llwybrau, a chytuno arno.

### Cefndir

Cynhaliodd Y Pwyllgor ar Seilwaith y Rheilffyrdd a Gwella Gwasanaethau i Deithwyr ymgynghoriad a chymerodd dystiolaeth yn ystod yr ail Gynulliad.  Roedd ei adroddiad terfynol yn argymell gwella gwasanaethau a seilwaith gwasanaethau rheilffordd i deithwyr yng Nghymru. Fel rhan o'i gylch gwaith, cytunodd y Pwyllgor Menter a Dysgu i ddilyn hynt yr argymhellion hyn.

Yn dilyn cyhoeddi'r Papur Gwyn Darparu Rheilffordd Gynaliadwy, cyhoeddodd yr Adran Drafnidiaeth a Llywodraeth Cynulliad Cymru Asesiad Cynllunio Rheilffyrdd Cymru ym mis Gorffennaf 2007. Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad a bu'n holi rhanddeiliaid allweddol. Cyhoeddodd ei adroddiad ar Gynllunio Rheilffyrdd y Dyfodol ar 21 Tachwedd 2007.

Roedd yr Aelodau'n fodlon ymateb i ymgynghoriad y Strategaeth Defnyddio Llwybrau, sy'n cau ar 22 Awst 2008, gan ddefnyddio tystiolaeth a gymerwyd gan y cyn Bwyllgor Rheilffyrdd ac ar ei ymchwiliad i Gynllunio Rheilffyrdd y Dyfodol.

### Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor

Gofynnir i'r Pwyllgor roi sylwadau ar yr ymateb drafft i'r ymgynghoriad yn Atodiad 1, a chytuno arno.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Gorffennaf 2008**